Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

# Adroddiad Blynyddol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2015-16

Awst 2016

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29477 ISBN digidol 978 1 4734 7220 4

# Cynnwys

1. Diben .......... 2

2. Trosolwg .......... 2

3. Themâu Allweddol .......... 3

4. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .......... 4

5. Llywodraethu ac Atebolrwydd .......... 4

6. Ymgysylltu .......... 5

## 1. Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Ein diben ni yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hybu gwelliannau.

Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgarwch hwn yw:

- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd
- Bod dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth eglur a phrydlon ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Bod dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydgysylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth.

## 2. Trosolwg

Ni chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiad yn ystod y flwyddyn ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 3. Themâu Allweddol

Er na chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiad ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwnaeth rhai o'n harolygiadau ar gyfer y GIG amlygu meysydd a materion sy'n berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynhaliodd AGIC wyth arolygiad ysbyty mewn wardiau a safleoedd amryfal ar draws y chwe bwrdd iechyd ledled Cymru, gan ymweld â chyfanswm o 15 ysbyty a 43 ward.

- Roedd gweithdrefnau hylendid dwylo ac archwiliadau atal a rheoli heintiau eraill wedi'u sefydlu'n dda iawn ar draws y byrddau iechyd.
- Daeth AGIC ar draws staff gofal iechyd nad oedd yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau'n gyson. Roedd hyn yn rhoi cleifion mewn perygl diangen o groes-heintio.

Parhaodd AGIC â'i rhaglen o arolygiadau ar gyfer pob practis deintyddol cyffredinol yng Nghymru. Archwiliwyd 133 o bractisau deintyddol. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y rhan fwyaf o'r practisau'n darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella, yn cynnwys:

- Roedd angen i 16 practis wneud gwelliannau ar frys yn ymwneud â'r gweithdrefnau dadheintio a gwnaethom argymhellion i lawer o bractisau eraill ar gyfer gwella'r maes hwn.
- Mewn llawer o'r practisau, nid oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed (oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso), er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant.
- Roedd rhai practisau'n weithgar iawn o ran annog cleifion i ystyried rhoi’r gorau i ysmygu ac roedd aelodau staff wedi dilyn cyrsiau hyfforddi mewn rhoi'r gorau i ysmygu.

Cynhaliodd AGIC raglen o 27 arolygiad o bractisau cyffredinol (meddygon teulu) yn 2015–16. Yn ystod yr ymweliadau hyn, amlygwyd rhai tueddiadau allweddol:

- Roedd gan bob practis hysbysfyrddau oedd yn darparu gwybodaeth i gleifion ynglŷn â hybu iechyd.
- Roedd gan lawer o'r practisau wefannau llawn gwybodaeth a chyfredol a oedd yn darparu dolenni defnyddiol i gleifion o ran cyngor iechyd.
- Mewn llawer o'r practisau, nid oedd y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed (oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso), er bod y rhan fwyaf o'r staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant.

## 4. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Ni anfonwyd llythyrau dilynol na llythyrau sicrwydd ar unwaith i'r ymddiriedolaeth.

## 5. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Nodir y trefniadau llywodraethu ar gyfer GIG Cymru yn *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru*.[1] Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac yn eu comisiynu.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru gwblhau hunanasesiad o'u sefyllfa o ran modiwl llywodraethu ac atebolrwydd Safonau Gofal Iechyd Cymru, gan ddyfarnu sgôr ar gyfer eu haeddfedrwydd ar raddfa o 1-5.

---

[1] Mae *Gofal Diogel, Gofal Tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd da yn GIG Cymru* yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau a'r hyn sydd angen ei roi ar waith i geisio a darparu sicrwydd ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Safe%20Care%2C%20Compassionate%20Care%20-%20Welsh%20Final%20version%20for%20publication%20-%20January%202013.pdf

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014-15 yn nodi mai effeithiol oedd arfarniad y sefydliad o'i drefniadau llywodraethu. Dan bob un o'r tair thema, rhoddodd y sefydliad sgôr aeddfedrwydd Lefel 3 iddynt eu hunain.

Yn rhan o'r thema ‘Pennu'r Cyfeiriad’, mae gan yr ymddiriedolaeth fwrdd sefydledig. Gwnaeth yr ymddiriedolaeth lunio cynllun strategol ar gyfer 2015–2018, a oedd yn cynnwys saith blaenoriaeth strategol. Mae'r ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod ei strategaeth yn cydymffurfio â'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol.

Yn rhan o'r thema 'Galluogi Cyflenwi', roedd yr ymddiriedolaeth yn parhau i sicrhau gwasanaethau diogel a hygyrch o fewn y gyllideb ar gyfer 2014–15. Mae'r ymddiriedolaeth wedi canfod problemau o ran swyddfeydd a ffyrdd o weithio i weithlu sy'n ymledu dros nifer o wahanol leoliadau.

Dan y thema 'Cyflenwi Canlyniadau, Cyflawni Rhagoriaeth', mae'r ymddiriedolaeth wedi ymgorffori arferion cynllunio a pherfformio yn y sefydliad drwyddo draw. Mae'r ymddiriedolaeth yn parhau i ddysgu wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac mae wedi lansio'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

Yn ogystal, daeth Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2015 i'r casgliad bod yr ymddiriedolaeth yn parhau i atgyfnerthu ei threfniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i bod yn gwneud cynnydd ar y gwaith o gynllunio integredig a rheoli risg, er bod yr adroddiad yn nodi cynnydd arafach nag a fwriadwyd o ran y fframwaith sicrhau ansawdd.

## 6. Ymgysylltu

Gwnaeth rheolwr perthynas AGIC ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru fynychu'r cyfarfod bwrdd ym mis Mehefin 2015 i gyflwyno adroddiad blynyddol 2014–15 i'r bwrdd.

Mae AGIC yn parhau i weithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol a chyffredinol (meddygon teulu). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod gweithredol o grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid practisau deintyddol a chyffredinol AGIC, ac yn rhoi cyngor yn rheolaidd lle bo'n briodol ar ganfyddiadau arolygiadau. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rheoli ac yn adrodd i AGIC ar broses hunanasesu i sicrhau ansawdd a ddilynir ar gyfer pob ymarferwr sy'n darparu deintyddiaeth breifat yn unig yng Nghymru.

Gwnaeth AGIC hwyluso nifer o weithdai diogelu gyda phob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth er mwyn cynnwys ymarferwyr yn y broses o ddatblygu coeden benderfynu a chyfrannu at ganllawiau cysylltiedig yn ymwneud ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod gweithredol o'r gweithdai diogelu hyn ac yn rhoi cyngor yn rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth AGIC ymgysylltu â Dr Brendan Mason, Epidemiolegydd Ymgynghorol i Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynglŷn â chael cliriadau iechyd gan y GIG i weithwyr gofal iechyd, a arweiniodd at fân newidiadau i'r llawlyfrau arolygu deintyddol.